# *Cefnogi Newid*

## Gwisg Ysgol

Gall gwisg ysgol helpu i greu ymdeimlad o gymuned, perthyn a hunaniaeth. Ochr yn ochr â hynny, gallan nhw helpu i leihau arwyddion gweladwy incwm is a thlodi, gan leihau stigma, embaras a bwlio cysylltiedig â thlodi.

Fodd bynnag, i lawer o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, mae gwisg ysgol yn achosi straen, pryder a bwlio yn rheolaidd. Os yw teuluoedd yn methu fforddio prynu'r wisg ysgol gywir, caiff dysgwyr yn aml eu bwlio a'u hynysu gan eu cyfoedion, a gall hynny arwain at fwy o absenoldeb, datgysylltu a cholli diddordeb.

**Trwy'r nodyn briffio hwn, *Cefnogi Newid: Gwisg Ysgol*, a'r astudiaethau achos sy'n cyd-fynd ag e, rydyn ni eisiau helpu ysgolion i roi newidiadau ar waith i'w polisïau a'u hymarfer presennol ar gyfer gwisg ysgol, trwy ddod i ddeall yr anawsterau fforddiadwyedd yn well, cynyddu ymwybyddiaeth o effaith polisïau presennol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a rhannu arferion mae ysgolion yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.**

### Plant yng Nghymru: Argymhelliad ar gyfer newid

- **Rhoi *Canllawiau Polisi Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion* Llywodraeth Cymru ar waith**

### Canlyniadau disgwyliedig y newid

- **Llai o gostau i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, fel bod mwy o gyllideb ar gyfer eitemau hanfodol fel bwyd**
- **Llai o stigma, straen, pryder a bwlio cysylltiedig â thlodi**
- **Mwy o gynhwysiant, fydd yn cefnogi pob un o'ch dysgwyr. Ar gyfartaledd bydd rhyw 1/3 o'ch dysgwyr yn byw mewn tlodi, neu'n agos at hynny**
- **Llai o gosbau am beidio â chydymffurfio â gwisg ysgol**
- **Codi lefel presenoldeb, hunanhyder ac ymgysylltiad dysgwyr**

Mae'r astudiaethau achos sy'n cyd-fynd â'r nodyn briffio hwn yn cynnwys enghreifftiau o arfer sy'n lleihau nifer yr eitemau gwisg ysgol sydd â bathodyn arnyn nhw; cynyddu fforddiadwyedd; a chynlluniau ailgylchu sy'n darparu gwisg ysgol am ddim i ddysgwyr sydd angen hynny. **Canlyniadau bach sydd i'r pethau hyn yn aml, ond mae'r newidiadau effeithiol yn cynnwys: cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gwisgo gwisg ysgol; hunanhyder ac ymgysylltiad dysgwyr; llai o straen a phryder; a mwy o ymgysylltiad teuluol, gyda'r ysgol yn cael ei gweld fel rhan gefnogol o'r gymuned ehangach.**

## Y Mater dan sylw

Mewn arolwg diweddar, **dywedodd 95% o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol, sy'n gweithio gyda rhyw 110,000 o deuluoedd, fod y sefyllfa yng Nghymru o ran tlodi yn waeth nag mewn blynyddoedd blaenorol.** Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn wynebu llawer o heriau yn feunyddiol. Mae llawer yn cael trafferth bwydo'u teuluoedd, darparu gwres, a llawer o eitemau eraill hanfodol.

Mewn perthynas ag addysg, dangosodd yr arolwg mai **fforddiadwyedd gwisg ysgol oedd y gost anoddaf i deuluoedd ei rheoli.** Roedd hynny'n **cael ei waethygu oherwydd bod gofyn cynnwys logo neu fathodyn yr ysgol ar wisg ysgol.**

Dywedodd plant a phobl ifanc eu hunain hefyd fod methu fforddio prynu gwisg ysgol yn cael effaith sylweddol ar y rhai sy'n byw mewn tlodi. Fe ddywedson nhw fod **y rhai oedd yn methu fforddio'r wisg lawn, neu'r wisg gywir yn fwy tebygol o gael eu bwlio a'u hynysu**, yn ogystal â bod yn fwy tebygol o gael eu cosbi neu eu hanfon adre. Roedd hynny'n cael effaith sylweddol ar eu hiechyd emosiynol a meddyliol, ac roedden nhw'n teimlo bod hynny'n gwbl annheg, gan sylweddoli **nad oes rhaid i wisg ysgol fod mor ddrud ag y mae**.

I deuluoedd sy'n byw mewn tlodi neu ar incwm isel, mae cost gwisg ysgol yn gyfran sylweddol o'u cyllideb, ac mae hynny'n amlwg yn fwy gwir fyth os nad oes modd prynu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'r prif eitemau o fanwerthwyr rhatach, fel archfarchnadoedd. Yn *Adroddiad Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd Blynyddol 2023*, roedd plant a phobl ifanc yn cydnabod yr anawsterau cost hyn, ac roedd rhai ohonyn nhw'n *"grac"* bod rhaid i deuluoedd ddewis rhwng prynu gwisg â brand yr ysgol neu brynu bwyd. Roedd eraill yn canolbwyntio ar effaith peidio â chydymffurfio o ran gwisg â brand yr ysgol ar fwlio, ac o ganlyniad, ar eu hiechyd meddwl, ac unwaith eto roedden nhw'n teimlo bod hynny'n *"annheg"*.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc beth fyddai'n helpu i atal bwlio cysylltiedig â thlodi yn yr ysgol, ac roedd eu sylwadau'n canolbwyntio'n bennaf ar dynnu logo neu fathodyn yr ysgol oddi ar y wisg, a sicrhau bod mwy o wisg ysgol ar gael am ddim (ailgylchu) neu am gost isel. Byddai hynny nid yn unig yn helpu i leihau bwlio cysylltiedig â thlodi, ond hefyd yn lleihau'n sylweddol y costau i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r tabl isod yn rhoi enghraifft o gostau gwisg ysgol 2 ysgol uwchradd yng Nghymru. Cyfrifwyd y costau hyn ym mis Awst 2023, ychydig cyn y flwyddyn ysgol newydd. Lle nad oes rhaid cael logo ysgol ar yr eitemau, mae'r costau wedi'u seilio ar y prisiau mewn archfarchnad flaenllaw.


| Blwyddyn ysgol 23/24 | Costau Ysgol A | Costau Ysgol B | stau archf rchnad heb logos |
|---|---|---|---|
| **Siaced ffurfiol (Blazer)** | £30.00** | £30.00 ** | £14.00 |
| **Sgert/trowsus x 2** | £ 8.00 | £ 8.00 | £ 8.00 |
| **Crys x 5** | £ 7.50 | £ 7.50 | £ 7.50 |
| **Tei** | £ 7.00 ** | £ 6.00 ** | £ 4.00 |
| **Siwmper x 2** | £34.00 ** | £32.00 ** | £ 5.00 |
| **Sanau/teits x 5** | £ 5.00 | £ 5.00 | £ 5.00 |
| **Esgidiau** | £14.00 | £14.00 | £14.00 |
| **Top Add Gorff x 2** | £44.00 ** | £37.00 ** | £ 3.00 |
| **Siorts Add Gorff x 2** | £24.00 ** | £ 5.00 | £ 5.00 |
| **Trênyrs** | £10.00 | £10.00 | £10.00 |
| **Cyfanswm** | **£183.50** | **£154.50** | **£75.50** |

** Logo yn orfodol, ac ar gael o s op benodol yn unig

## Y Darlun ar hyn o bryd

Syndod o bosib oedd gweld, er gwaethaf polisi a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar bolisi gwisg ysgol, fod **79% o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg yn dweud bod rhaid iddyn nhw wisgo bathodyn neu logo'r ysgol ar eu gwisg ysgol.**

**Oes rhaid i ti wisgo bathodyn neu logo ysgol ar dy wisg ysgol?**




fin 2024

Mae'r canllawiau polisi statudol yn cydnabod bod gwisg ysgol yn faich ariannol, yn arbennig ar gyfer teuluoedd incwm is. Er mwyn ymdrin â hyn a lliniaru'r effaith ar deuluoedd incwm is, mae'r canllawiau'n nodi'r canlynol:

- Dylai ysgolion roi blaenoriaeth uchel i gost a fforddiadwyedd (adran 3.1)
- Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud nes bod disgyblion yn teimlo eu bod yn methu mynd i'r ysgol (3.1)
- Dylai eitemau wedi'u brandio ddim bod yn orfodol (3.1)
- Dylai ysgolion sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau ar gyfer gwisg ysgol ail law (3.1)
- Dylid osgoi eitemau cost uchel, fel siacedi ffurfiol (3.2)
- Wrth newid polisi gwisg ysgol, dylid cyflwyno cyfnod pontio (3.2)
- Dylid osgoi cael un cyflenwr yn unig, gan fod hynny'n ychwanegu at y gost (3.6)

Mae'r canllawiau'n annog ysgolion i beidio â brandio dillad, ac yn argymell peidio â gwneud brandio'n orfodol, os yw'n cael ei ddefnyddio. Er bod yr opsiwn anorfodol yn helpu gyda chostau, gwaetha'r modd, mae'n aml yn amlygu'r bobl ifanc hynny sy'n byw mewn tlodi. Yng nghanfyddiadau ein harolwg diweddar, gwnaeth un person ifanc y sylw bod yr opsiwn anorfodol ar waith yn eu hysgol nhw, ond bod gwisgo siaced heb frand yr ysgol yn *"gwneud i chi sefyll allan"* ac yn golygu eich bod chi'n fwy tebygol o gael eich bwlio.

Yr union faterion hyn a amlygwyd gan ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol, plant a phobl ifanc fel: **rhwystrau i fynychu'r ysgol oherwydd fforddiadwyedd y wisg; mwy o fwlio ar y rhai nad yw eu gwisg yn cydymffurfio; a chyflwyno cosb roedden nhw'n teimlo oedd yn annheg i'r rhai oedd yn methu fforddio'r costau.**

***"Os wyt ti heb y wisg ysgol gywir, rwyt ti'n cael slip gwisg ysgol i fynd adre, ac os nad yw'r wisg yn cael ei chywiro, rwyt ti'n cael pwynt ymddygiad negyddol sy'n gallu codi i gael dy gadw i mewn ar ôl ysgol"***

**(14-16oed)**

Gofynnodd yr arolwg sawl eitem o'r wisg ysgol a pha rai oedd angen bathodyn neu logo ysgol. Roedd yr eitemau hyn yn amrywio, ond yn cynnwys siaced wedi'i brandio (31%) a gwisg Addysg Gorfforol wedi'i brandio (60%). Ni ofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc sawl eitem yn y cit Addysg Gorfforol oedd yn gorfod cynnwys y brand, ond o'r sylwadau, mae'n amlwg bod llawer o ysgolion yn gofyn bod y logo ar rhwng 2 a 4 eitem (e.e. hwdi, top chwaraeon, siorts/sgertiau, a throwsus hyfforddi hir). Mae'n debygol felly bod rhai ysgolion yn gofyn bod y brand ar hyd at 9 o eitemau.



***"Tase dim bathodyn ar wisg ysgol a'i bod yn blaen, byddai'n rhatach ac yn haws i bobl brynu. Gallai'r ysgol hyd yn oed werthu bathodynnau i'w smwddio mlaen, fel bod e'n rhatach, achos mae gorfod prynu o siop gwisg ysgol yn ddrud iawn"*** **(10-13oed)**

Soniodd ambell blentyn a pherson ifanc fod eu hysgolion yn rhagweithiol yn helpu teuluoedd oedd yn methu fforddio gwisg ysgol. Nodwyd *"ailgylchu gwisg ysgol"*, oedd yn cael ei chyfrannu gan ddysgwyr eraill a'i rhoi i deuluoedd. Roedd y rhain yn cael eu gweld fel camau cadarnhaol iawn i helpu plant sy'n byw mewn tlodi.

***"Mae ein hysgol ni yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod plant mewn tlodi ddim yn sefyll allan. Mae gwisg ysgol am ddim i blant sydd angen hynny, a phlant eraill sydd wedi rhoi'r eitemau"*** **(10-13oed)**

Lle roedd hyn yn digwydd, roedd plant a phobl ifanc yn eithriadol o falch o'u hysgol, o'r camau roedden nhw eu hunain yn eu cymryd, a sut roedd plant yn cael eu trin yn y lleoliad. Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau, roedd yn ddiddorol iawn darganfod bod y rhai a soniodd am gamau cadarnhaol, lliniarol o fewn yr ysgol, gan gynnwys rhoi'r gorau i frandio gwisg ysgol, ac ailgylchu gwisg ysgol, ddim yn sôn am fwlio, annhegwch nac ynysu. Roedd hynny'n anghyffredin o gymharu â'r ymatebwyr eraill.

Y thema drosfwaol gan blant a phobl ifanc ar draws Cymru yw bod angen i bethau newid, bod **pawb yn haeddu tegwch, ac na ddylai profiadau addysgol ddibynnu ar incwm nac amgylchiadau.**

## Argymhellion ar gyfer newid gan blant a phobl ifanc

- **"Gwahardd logos ar wisg ysgol. Maen nhw'n gwneud y wisg yn ddrud, ac allwch chi ddim prynu eitemau yn yr archfarchnad"**
- **"Dylai fod gan bob ysgol fannau ailgylchu gwisg ysgol, fel bod pob plentyn yn gallu fforddio gwisg ysgol"**
- **"Trin pawb yn gyfartal. Mae pawb ohonon ni'n haeddu parch a chael ein trin yn garedig, beth bynnag yw ein hamgylchiadau."**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Cefnogi Newid

Mae llawer o newidiadau ymarfer a pholisi y gall ysgolion eu rhoi ar waith i liniaru effaith tlodi ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac mae modd cyflawni'r rhan fwyaf ohonynt heb fawr ddim costau. O ailgylchu gwisg ysgol, i ganolbwyntio ar liw yn hytrach na bathodynnau, darparu bathodynnau i'w smwddio ar y dillad, lleihau nifer yr eitemau lle mae angen bathodyn neu ddileu bathodynnau'n llwyr o'r wisg ysgol, bydd pob un o'r newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol.

**Rydyn ni'n gwerthfawrogi na all newid ddigwydd dros nos, ond gyda chynifer o ddysgwyr yn byw mewn tlodi neu mewn teuluoedd incwm isel, mae angen newid, ac mae angen hynny ar frys. Mae rhoi sylw i'r anawsterau mae teuluoedd yn eu hwynebu yng nghyswllt gwisg ysgol, cynllunio ar gyfer newid a'i roi ar waith yn gam cadarnhaol y mae modd ei gyflawni tuag at brofiadau addysgol teg i'n holl ddysgwyr.**

**Gall Plant yng Nghymru eich cefnogi i wneud y newid hwn a newidiadau eraill â'r adnoddau *Taclo Effaith Tlodi ar Addysg*.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig help gyda chostau ysgol. Darganfyddwch yr help y gallai eich plentyn gael, yn ogystal â chyllid ychwanegol ar gyfer eu hysgol. Hawliwch help gyda chostau ysgol | LLYW.CYMRU**

**Mae'r adnoddau *Taclo Effaith Tlodi ar Addysg* yn cynnwys Canllaw 'Pris Tlodi Disgyblion' a phecyn offer effeithiol a luniwyd i helpu ysgolion i gydnabod a deall effaith tlodi ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r camau lliniaru mae modd eu rhoi ar waith yn eu lleoliadau.**

**Mae gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer y rhaglen hon ar gael ar yr Hwb, neu gallwch chi gysylltu â Plant yng Nghymru i gael rhagor o wybodaeth: pupilpoverty@childreninwales.org.uk**

## Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos 1: Ysgol Gynradd Blaenhonddan**
**Astudiaeth Achos 2: Ysgol Gynradd Buttington Trewern**
**Astudiaeth Achos 3: Ysgol Gynradd y Gnoll**
**Astudiaeth Achos 4: Ysgol Gynradd Emmanuel**
**Astudiaeth Achos 5: Ysgol Arbennig Tir Morfa**
**Astudiaeth Achos 6: Ysgol Gynradd Jenner Park**
**Astudiaeth Achos 7: Ysgol Gynradd Jubilee Park**
**Astudiaeth Achos 8: Ysgol Uwchradd y Rhyl**

**Lluniau o Arferion**

I gael rhagor o wybodaeth am **Cefnogi Newid: *Gwisg Ysgol*** cysylltwch â:
Karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk

Plant yng Nghymru: Mehefin 2024